Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau'r ymchwil am y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.

Dyma'r adroddiad canol cyfnod mewn prosiect ymchwil 4 blynedd.



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. Digital ISBN 978-1-83715-375-6

# Beth yw'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol?

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi **£1600 c**yn treth bob mis dros ddwy flynedd. Mae hyn ar gyfer pobl **18-20** oed sy'n gadael gofal.

Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc sy’n gadael gofal yn byw mewn cartrefi gofal maeth neu gartrefi plant cyn iddynt droi'n 18 oed.

Roedd y cynllun peilot ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a gafodd eu pen-blwydd yn 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023.

Mae **644 o bobl ifanc** wedi bod yn rhan o’r cynllun peilot.

# Mae’r tîm ymchwil yn edrych ar 5 peth dros 4 blynedd:

1. Pa wahaniaeth y mae'r incwm sylfaenol wedi'i wneud i'r bobl ifanc?
2. Sut mae'r cynllun peilot wedi gweithio?
3. Beth fu profiadau pobl?
4. Sut mae’r cynllun peilot yn cyd-fynd â chymorth arall i bobl ifanc sy’n gadael gofal yng Nghymru?
5. Faint o arian mae'r cynllun peilot yn ei gostio neu'n ei arbed?







# Y Tîm

Canolfan ymchwil CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n arwain yr ymchwil. Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr o bedair prifysgol arall. Mae'r ymchwil yn cael ei ariannu gan lywodraeth Cymru.



Rydym hefyd yn gweithio gyda grŵp o oedolion ifanc sydd wedi gadael gofal. Roedden nhw’n rhy hen i gael yr incwm sylfaenol. Maen nhw'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gofyn y cwestiynau iawn yn y ffyrdd iawn.



# Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn?

**412**

Cwblhaodd 412 o bobl ifanc **arolygon** ar ddechrau'r cynllun peilot.

**2/3**

Mae hynny tua dwy ran o dair o'r bobl ifanc a gafodd yr incwm sylfaenol.

**Cyfweliadau gyda:**

- 41 o weithwyr **proffesiynol**
- 44 o **bobl ifanc** sy'n derbyn yr incwm sylfaenol
- 8 **o gefnogwyr y pobl ifanc sy'n oedolion**

# Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yn hyn?

Arsylwi cyfarfodydd gweithwyr proffesiynol a oedd yn trafod y cynllun peilot incwm sylfaenol.

Darllen dogfennau'r llywodraeth am y cynllun peilot incwm sylfaenol.

Llunio theori am sut mae'r cynllun peilot incwm sylfaenol yn gweithio.

# Beth ydyn ni wedi'i ddarganfod?

**Mae’r arolygon yn dangos y canlynol:**

**Roedd y bobl ifanc sy'n derbyn yr incwm sylfaenol yn debyg i rai eraill sy'n gadael gofal.**

**Pan oeddent yn 18 oed:**

- Roedd 42% yn astudio
- Roedd 22% yn gweithio neu'n hyfforddi
- Roedd ganddynt lai o lesiant na phobl ifanc 18 oed nad ydynt yn gadael gofal

- Roedd mwy na 50% yn byw gyda ffrindiau, perthnasau neu ofalwyr maeth
- Roedd 35% yn rhentu ystafell neu fflat
- Roedd 4% yn ddigartref
- Mae gan 87% rywun y gallant ymddiried ynddo

Mae'r arolwg hwn yn mesur y man cychwyn. Bydd pobl ifanc yn llenwi’r arolwg eto pan fyddant yn 20 oed.

## Yn y blwyddyn cyntaf, dywedodd pobl proffesiynol:

Mae angen cymorth ychwanegol ar y rhai sy'n gadael gofal.

Roedd gan bobl ifanc fwy o gyfleoedd gyda'r incwm sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cael gwersi gyrru, cynilo, newid gyrfa, cymysgu ag eraill a chael gwyliau.

Roedd llawer yn poeni bod rhai pobl ifanc yn wynebu gormod o heriau bywyd. Efallai y bydd yr arian yn gwneud pethau'n waeth iddyn nhw.

Roedd rhai yn poeni bod 18 yn rhy ifanc i gael incwm sylfaenol.

Roedd llawer yn meddwl y dylai pobl ifanc orfod gwneud rhywbeth i gael yr arian.

# Yn y flwyddyn gyntaf, dywedodd pobl ifanc ar y cynllun peilot:

- Pobl ifanc sy'n gadael gofal yw'r grŵp iawn i gael yr incwm sylfaenol
- Roedd 18-20 yr oedran iawn
- Roedd y swm ariannol yn iawn

- Dywedodd y rhan fwyaf bod eu Gynghorydd Pobl Ifanc yn eu helpu i wneud penderfyniadau.
- Dywedodd rhai bod cynghorwyr Cyngor ar Bopeth o gymorth
- Roedd teulu neu ofalwyr maeth yn helpu rhai i gynilo neu wneud penderfyniadau
- Roedd rhai yn helpu teulu a ffrindiau gyda benthyciadau bach ac anrhegion
- Dywedodd rhai ddim wrth deulu a ffrindiau am yr arian

# Yn y flwyddyn gyntaf, dywedodd pobl ifanc ar y cynllun peilot:

- Dysgon nhw fwy am sut i wario a chynilo yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf
- Roedd llawer yn cynilo ar gyfer car, gwersi gyrru, y brifysgol neu’r dyfodol
- Roedden nhw'n gallu gwneud mwy o bethau gyda ffrindiau
- Roedd rhai yn bwyta'n well ac yn gwneud mwy o chwaraeon a gweithgareddau

## Yn y flwyddyn gyntaf, dywedodd pobl ifanc ar y cynllun peilot:

- Roedd llawer yn dweud bod eu hiechyd meddwl a'u lles yn well
- Roedd rhai yn dweud bod ganddyn nhw fwy o ddewisiadau a rheolaeth dros swyddi a choleg
- Roedd rhai yn cael trafferth dod o hyd i swydd
- Roedd llawer yn poeni neu'n ansicr ynghylch pryd y daw'r incwm sylfaenol i ben

# Sut mae’r cynllun peilot incwm sylfaenol wedi gweithio?

Roedd y cynllun peilot incwm sylfaenol yn gymhleth a bu'n rhaid ei gyflwyno'n gyflym.
Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn credu nad oeddent yn gwybod digon am y cynllun peilot ar y dechrau. Roedden nhw eisiau bod yn fwy parod.






Ond, dywedodd y gweithwyr proffesiynol fod tîm Llywodraeth Cymru wedi ateb eu cwestiynau’n gyflym. Fe wnaethon nhw rai newidiadau a awgrymon nhw.



# Sut mae'r cynllun peilot incwm sylfaenol wedi gweithio?

Mae staff Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor i bobl ifanc am arian:

- Maen nhw wedi gweld cannoedd o bobl ifanc
- Dywedodd rhai nad oedd pobl ifanc ar y cynllun peilot wedi gofyn am gyngor
- Roedd yn anodd cysylltu â rhai o'r bobl ifanc

- Talwyd yr incwm i bobl ifanc yn brydlon
- Mae rhent yn llawer uwch mewn tai â chymorth o gymharu â thai eraill
- Mae gan rai pobl ifanc lai o arian ar ôl rhent nag eraill
- Nid oedd rhai gwleidyddion yn cytuno â rhoi'r arian i bawb sy'n gadael gofal

**Cadwodd Llywodraeth Cymru at y cynllun.**

# Beth fydd yn digwydd nesaf gyda'r ymchwil?

*Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn adrodd ar y canlynol:*

- Beth mae pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn ei ddweud ar ddiwedd y cynllun peilot incwm sylfaenol
- Y gwahaniaeth rhwng pobl ifanc a gafodd yr incwm sylfaenol a'r rhai na chafodd ef
- Costau ac arbedion i'r llywodraeth

I gael mwy o wybodaeth am ein hymchwil gallwch lawrlwytho'r adroddiadau hirach yma:

Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024

Adroddiad Blynyddol 2024 I 2025